CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych

Medi 2017 ***Rhif 078***

Wel, fe ddaeth mis Medi eto! I rai bydd yn gyfnod o ddechrau newydd mewn ysgol a choleg. I ni'n tri – i fi, Heledd a Mabon – mae'n gyfnod cyffrous wrth i ni ddechrau ar ein bywyd yn eich plith. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am bob croeso hyd yma, ac edrychwn ymlaen at gael byw yn eich plith a gwasanaethu Duw gyda chi.

Cyfnod cynhaeafu, wrth gwrs, yw mis Medi – cyfnod casglu'r cnwd wedi misoedd o waith a disgwyl amyneddgar.

Mae Iesu'n dysgu llawer i ni trwy ddefnyddio darluniau o gyfnodau hau a medi. Dywedodd unwaith wrth ei ddisgyblion fod ein hymateb ni i'w neges yn ddigon tebyg i'r pridd lle cwympodd had yr heuwr. Bydd rhai'n clywed ei neges a throi i ffwrdd yn syth; bydd eraill yn derbyn y neges yn llawen reit ar y cychwyn cyntaf, ond yn troi cefn arno ar yr arwydd gyntaf o drwbl. Bydd y drain - "gofalon y byd hwn a hudoliaeth golud a chwantau am bopeth o'r fath" (Marc 4:19) – yn tagu peth o'r had, er bod y twf mor addawol ar y cychwyn. Ond bydd yr had ymhlith rhai yn glanio mewn pridd da – ac o ganlyniad bydd ffrwyth cwbl ryfeddol, 'hyd drigain a hyd ganwaith cymaint'.

Gallwch grynhoi neges Iesu yn y ddameg yma i un gair: 'Gwrandewch!' Mae'r rhai sy'n 'clywed y gair ac yn ei groesawu', meddai Iesu, yn profi o'i fendithion hael yn rhad ac am ddim, heb unrhyw amod. Ar ddechrau cyfnod newydd yn ein hanes ni fel bro, gadewch i ni oll ymrwymo'n hunain i wrando ar yr un ddaeth 'er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder' – ein Gwaredwr a'n Harglwydd Iesu.

Nos Sul, Medi 3ydd, 7.30

Capel Mawr, Dinbych

GOREUON EISTEDDFOD
YNYS MÔN

Unawdau,
deuawdau, triawdau,
partion a chorau.

Oedolion £10, Plant £5
Tocynnau yn Siop Elfair a Siop Clwyd

Elw at Eisteddfod yr Urdd,
Dinbych 2020

Cynhelir Cinio'r Fro
Dydd Gwener Medi 8fed
am 12 dydd yn Festri Capel Mawr

CAPEL Y FRON
Cynhelir ein Fair Hydref
bore dydd Sadwrn Medi 30ain
yn Eirianfa am 10 o'r gloch.
Mynediad £1 Croeso cynnes i bawb.

Rhag-hysbysiad
Noson yng nghwmni
Côr Bro Aled
yn Capel y Fron
nos Sul y 15fed o Hydref.
Mynediad £6.

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Medi 3 – 10.00 – Dafydd Timothy, Rhyl
Dydd Sul , Medi 17 – 2.00 – Parch Robert Parry, Wrecsam

Medi 30 – Cyfarfod Sefydlu y Parch Ddr Andras Iago
yn Capel Mawr

Cynhelir yr Wyl Ddiolchgarwch ar ddydd Iau, Hydref 5 am 2.00
Parch Brian Wright
Croesawir yn yr Hydref ein Gweinidog Andras i'n plith, fel y gwelir yn y llun fu yma eisioes yn mis Gorffennaf a braf oedd cael ei gyfarfod.

Hefyd eto'n meddwl am y rhai nad ydynt yn cael iechyd gorau ar hyn o bryd. Ond yn falch bod Gwladys Edwards yn gwella yn dda ar ol ei thriniaeth, a hefyd Keith sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Arthur, Gwyneth, Richard, Andras, Helen, Brian, Barbara a Mair

BRWCWS

Dydd Sul, Medi 3ydd
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun – Y Parch. Andras Iago am 2.00
Dydd Sul, Medi 10ed
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Huw Dylan Jones am 2.00
Dydd Sul, Medi 17eg
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Irfon Parry am 2.00
Dydd Sul, Medi 24ain
Ysgol Sul am 10.00
Mr T. Alun Williams am 2.00

Cydymdeimlwn a E. Dilwyn Jones, Hirwaun yn dilyn marwolaeth ei fam Mrs Sarah Jones.

Ysgol Sul – aeth nifer o blant a'u rhieni i Fetws y Coed i'r ganolfan antur "Tree Tops" ym mis Gorffennaf a gorffen y diwrnod gyda swper yn y Stablau.

Llongyfarchiadau i Morgan Tomos Cordiner, Ystrad Bach wedi derbyn gradd BA mewn Daearyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol o Brifysgol Aberystwyth.

Y DYFFRYN

Llywydd y Mis – Gwilym C. Evans

Dydd Sul, Medi 3ydd – 11.15 - Parch Megan Williams
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion 10.30)
Emyn a darllen – Margaret W
Organ – Alaw
Blodau – Glesni

Dydd Sul, Medi 10fed – 10.00 – Glyn Williams
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant – (Ysgol Sul Oedolion 9.30)
Emyn a darllen – Ffiona/Arwyn
Emyn a darllen y plant/Ieuenctid – Ysgubor Efa
Organ – Lona
Blodau – Alma

Dydd Sul, Medi 17eg – 11.15 – Mr Aeron Hughes
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion 10.30)
Emyn a darllen – Bethan
Emyn a darllen y Plant/Ieuenctid – Leah/Alys
Organ – Iona
Blodau – Gwyneth E

Dydd Sul, Medi 24ain – 10.00 – Parch Huw Pritchard – (Cymun)
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant
Emyn a darllen – Alaw/Rheinallt
Emyn a darllen y Plant/Ieuenctid - Elinor/Anna
Organ – Anwen
Blodau – Ceri

GELLIFOR

Dydd Sul, Medi 3ydd – 11.15 – Parch Megan Williams
Capel Dyffryn
Dydd Sul,Medi 10fed – 11.15 – Mr Glyn Williams
Gwasanaeth Dechreuol – Llain Ydfa
Ysgol Sul –Jenni
Offeryn – Nia
Blodau – Marian
Dydd Sul, Medi 17 –10.00 – Mr Aeron Hughes
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Tan Ffordd
Ysgol Sul – Sioned
Offeryn – Richard
Blodau – Marian

FRON

Llywyddy mis – Mrs Wendy Lloyd Jones

Dydd Sul, Medi 3ydd
10.00 Fron – Bugail –Oedfa Gymun
Capel Mawr – Bugail
Offeryn – Iona Edwards
Dydd Sul, Medi 10fed
10.00 – Capel Mawr – Parch Huw Dylan Jones
5.30 – Fron – Parch Robert Parry, Wrecsam
Offeryn– Eiri Jones
Dydd Sul, Medi 17eg
10.00 – Fron - Parch Irfon Parry
5.30 – Capel Mawr – Parch Irfon Parry
Offeryn –Iona Edwards
Dydd Sul, Medi 24
10.00 – Capel Mawr – Mr T. Alun Williams
5.30 – Fron – Mr T. Alun Williams
Offeryn – Eiri Jones

Dechrau Canu – Gwyneth Morris

Blodau yn gyfrifol – Mrs Eiri Jones
3ydd – Gwenda Owens
10fed
17eg
24ain

Llestri'r Cymun – Megan Williams a Dilys Davies

Croesawu
3ydd - Mr Gwyrfai Jones
10fed – Mrs Gaynor Prew
17eg – Mrs Iona Edwards
24ain – Mr Richard Snelson

Cynhelir Bore Goffi bore Sadwrn Medi 9fed o 10 o'r gloch ymlaen, ar elw at apêl Corwynt Cariad. Pris mynediad £1. Croeso cynnes i bawb

Cymdeithas y Chwiorydd Fron a Brwcws
Medi 20 – Cymdeithas Cenhadol y Chwiorydd yn cyfarfod yn Nhrefnant am 7 yh,.

Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron
Nos Fercher Medi 27ain. Noson Agoriadol: Adloniant yng nghwmni Y Ddwy Sian. Lluniaeth yng ngofal y merched. Pris: £6 wrth y drws. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir ein Fair Hydref bore dydd Sadwrn Medi 30ain yn Eirianfa am 10 o'r gloch.
Mynediad £1
Croeso cynnes i bawb.

Y CAPEL MAWR A SEION

Dydd Sul, Medi 3
10.00 – Y Fron - Y Bugail - oedfa Gymun
5.30 – Y Capel Mawr – Y Gweinidog

Dydd Sul, Medi 10
10.00 –Y Capel Mawr – Y Parch. Huw Dylan Jones, Llangwm
5.30 – Y Fron – Y Parch. Robert Parry, Wrecsam

Medi 11 – Yr Aelwyd – ..Cyfarfod Gweddi am 1.30

Dydd Sul, Medi 17
10.00 – Y Fron – Y Parch. Irfon Parry
5.30 – Y Capel Mawr – Y Parch. Irfon Parry

Medi 19..... Yr Aelwyd yn cyfarfod am 1.30.
Sgwrs gan y Parchedig Andras Iago.
Croeso i bawb

Dydd Sul, Medi 24
10.00 – Y Capel Mawr – Mr T. Alun Williams
5.30 - Y Fron - Mr T. Alun Williams

Dydd Sadwrn, Medi 30 – Y Capel Mawr am 2pm -
Cyfarfod Sefydlu'r Parch. Andras Iago

Llywydd Y Mis: – Mr Ifor John Jones
Wrth y Drysau:- I'w drefnu
Casglyddion:- I'w drefnu

Organyddion/Cyfeilyddion:-
Medi 3 – Mrs Doris Williams
Medi 10 - Mrs Dorothy Rogers
Medi 17 – Mrs Catrin Warren
Medi 24 - Mrs Doris Williams

Rhoddir y Blodau gan:-
Medi 10 – Mrs Beryl Owen
Medi 24 – I'w drefnu

Llety'r Gweinidog
Medi 17 – Y Fron
Medi 24 - Y Capel Mawr

CYDYMDEIMAD – Cydymdeimlwn â Mr Gwilym Luke Jones, 21 Bryn Teg, yn ei brofedigaeth o golli'i dad a Mr Gareth Luke Jones, Awel y Coed, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli taid a hen daid annwyl. Estynnwn iddynt ein cydymdeimlad dwysaf a meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

COLLED – Yn ystod yr haf bu farw Mrs Alwena Jones, Bryn Nefydd gynt. Yn un o aelodau Capel Seion, yn ystod y blynyddoedd diwethaf cyfrannodd yn hael fel un o gyfeillion yr achos yn Y Capel Mawr. Cydymdeimlwn â'r teulu a'i chydnabod.

Aelwyd Capel Mawr

Ar yr 20fed o Fehefin bu'r Aelwyd ar ymweliad a'r Ysgwrn y Nhrawsfynydd, cartref Hedd Wyn.

Roedd y daith wedi ei threfnu yn drylwyr gan Mr Tom Williams, ac ar y ffordd yno atgoffodd ni o hanes yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw. Ar ddiwrnod y cadeirio cyhoeddwyd mai " Fleur de Lys" oedd yn fuddugol, ac mai Hedd Wyn oedd y bardd, ac nad oedd yn bresennol am iddo gael ei ladd ym mrwydr Passchendaele yn y Rhyfel Byd cyntaf. Gorchuddiwyd y Gadair mewn du.

Mae'r Ysgwrn yn awr wedi ei brynu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ers 2012, ac wedi ei adnewyddu yn ofalus drwy gadw natur y lle, gan roi y teimlad o'r bywyd fel oedd gan mlynedd yn ol. Roedd nai Hedd Wyn Gerald Williams yno hefyd i'n croesawu ac i ddisgrifio bywyd ar fferm gan mlynedd yn ol. Roedd mor greulon fod Hedd Wyn a channoedd tebyg iddo yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi, cafodd y bugail ei dynnu o'r caeau a'i roi mewn sefyllfa ddychrynllyd yn erbyn ei ewyllys.

Cafwyd cyfle i syllu'n fanwl ar 'Y Gadair Ddu' ar ei newydd wedd, ar ôl iddi fod yn y 'South' chwedl Gerald.

Gwelsom bump cadair arall oedd wedi cael eu hennill mewn Eisteddfodau eraill.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Tom Williams am drefnu popeth, am y wybodaeth, trefnu Cert Y Plwy a hyd yn oed y tywydd! Diolch hefyd i Emyr Rees am yrru'r bws mor ofalus.

Medi 19..... Yr Aelwyd yn cyfarfod am 1.30.

Sgwrs gan y Parchedig Andras Iago.

Croeso i bawb

Medi 11.....Cyfarfod Gweddi am 1.30

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul, Medi 3ydd	10.00	Pentre Mrs Helena Jones
Dydd Sul, Medi 10fed	11.00	Ymweld a'r Ysgwrn
Dydd Sul, Medi 17eg	10.00	Prion Parch Nesta Davies
Dydd Sul Medi 24ain	10.00	Pentre – Gwasanaeth teuluol
Dydd Sadwrn, Medi 30ain - Parch Andras Iago	2.00	Capel Mawr - Cyfarfod Sefydlu

CHWIORYDD – Aeth criw bach ohonnom i ymweld â Eirlys yng nghartref Coed Craig yn Llandrillo yn Rhos, 'roedd yn falch o'n gweld, a chawsom sgwrs pleserus gyda hi. Daethom yn nôl i'r festri a chael bwffe blasus wedi ei baratoi gan gwmni allannol -Jenny Plymog Catering

YSGOL SUL

Aeth criw bach o'r Ysgol Sul hefyd i ymweld â Eirlys yng nghartref Coed Craig. Roedd Eirlys a phawb yng Nghoed Craig wedi mwynhau cwmni'r plant, cawsom gyd ganu gyda'r preswylwyr cyn mynd ymlaen i barc Eirias am bicnic, pnawn braf iawn.

LLONGYFARCHIADAU

I Mrs Eluned Edwards Celynnog ar ddod yn hen-nain i Anni Beca, wyres fach i Nia ac Arthur. Llongyfarchiadau hefyd i David a Nerys ar ddod yn daid a nain i Nansi Griff, merch fach i Arwel a Llinos yng Nghaerdydd - pob bendith i'r ddau deulu bach

CYDYMDEIMLO

Gyda Mrs Enid Jones a Stephen, Tŷ Mawr ar golli ei chwaer yn ddiweddar

Hefyd gyda Alun a Ann Jones, Pont y Bedol, Ann wedi colli ei thad

RHAGHYSBYSIADAU

Noson agoriadol y Gymdeithas, Nos Wener 13eg Hydref am 6.30, swper ac adloniant

Noson yng nghwmni teulu Dolwar, Nos Wener 10fed Tachwedd am 6.30

Parti Plant yr Ysgol Sul, 3.30yp Dydd Gwener 8fed Rhagfyr

YMWELD A'R YSGWRN, TRAWSFYNYDD – Dydd Sul 10fed o Fedi
Cychwyn o Fuarth y Capel am 11.00. Picnic yn Y Bala ar y ffordd, yna ymlaen i'r Ysgwrn erbyn 2.00.
Mynediad: Oedolion £10, plant £2.50 (dros 5 oed) yn cynnwys sgwrs, paned a chacen
Pris Cart y Plwyf: tua £5 (yn dibynnu ar y niferoedd). Arian i'w dalu ar y diwrnod.

GLYN

Dim Gwasanaeth ym mis Medi

Dydd Sul, Hydref 8fed am 2 o'r gloch
Cynhelir Oedfa Diolchgarwch gyda'r
Parch Andras Iago yn gwasanaethu.

Pleser oedd cael estyn croeso cynnes iawn i'r Parch Andras Iago i'n plith ac hefyd yr un croeso i Heledd ei briod â Mabon bch a'n dymuniadau gorau i chwi fel teulu ac yn gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith yn Nyffryn Clwyd.

Ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i John Penbryn sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen yn ddiweddar ac yn falch ei fod adref erbyn hyn ac yn gwella'n dda.

Llongyfarchiadau i Dafydd Penbrynllan ar ei lwyddiant yn Steddfod Ynys Môn a'n dymuniadau gorau iddo a'r gychwyn ei yrfa yng Ngholeg Cerdd Brenhinol yn Llundain.

TREFNANT

Llywydd y Mis BRYN ROBERTS

Dydd Sul Medi 3ydd
10.00 Parch Megan Williams 11.00 YSO
3.00 Parch Megan Williams
Blodau : Eileen Humphreys

Dydd Sul Medi 10fed
10.00 Mr Arwel Roberts 11.00 YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Hafina Thomas

Dydd Sul Medi 17eg
10.00 Mrs Enid Davies 11.00 YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Eleri Jones

Dydd Sul Medi 24ain
10.00 Parch Andras Iago
Gwasanaeth y Cymun Sanctaidd
gyda phaned a sgwrs i ddilyn
3.00 Parch Andras Iago
Blodau : Beti Hughes

YSGOL SUL Y PLANT Cynhelir yr Ysgol Sul i'r Plant yn ystod gwasanaeth y bore - cawn eu cwmni a'u cyfraniad yn rhan ddechreuol y gwasanaeth ac yna bydd croeso iddynt barhau yn y Festri neu, i'r rhai hyn, pe dymunent, aros yn y gwasanaeth. Mae Angharad ac Anwen yn paratoi yn gyson ar gyfer y plant a mawrygwn eu gwaith yn fawr iawn. Byddai'n braf croesawu eraill o'r pentref a thu hwnt i ymuno felly, os gwyddoch am rywun fyddai'n gallu elwa o'r gymdeithas hon, gwahoddwch nhw yn gynnes atom ar foreau Sul.

CROESO Ein braint y mis hwn yw croesawu 'r Parchedig Andras Iago yn Weinidog ar y Fro a'r Eglwys hon. Cawn ei goesawu i'w wasanaeth cyntaf fel Bugail yn Nhrefnant ar Sul 24ain gan obeithio y byddwn oll yn gallu bod yn bresennol fel teulu'r Eglwys . Dymunwn pob bendith arno yn ein plith ac iddo ef, ei wraig, Heledd, a'u mab bychan, Mabon , yn eu cartref newydd yng Ngellifor.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd ar brynhawniau Llun yn ail-ddechrau ar Fedi'r 18fed 2017 rhwng 2.00 – 4.00 pm. Byddwn yn trafod gwaith y flwyddyn ac yn mwynhau addoliad, paned a sgwrs gyda'n gilydd. Croeso cynnes i aelodau cyfarwydd ac eraill o'r newydd.

LLONGYFARCHIADAU i bawb sydd wedi cael llwyddiant mewn Sioeau Amaethyddol, Eisteddfod Sir Fon ag arholiadau amrywiol yn ystod yr haf yma. Rydym wedi gweld llawer ohonoch yn serennu ar radio a theledu yn ystod yr amser diweddar hwn. Da iawn chi - rydym yn hynod falch ohonoch i gyd.

CYFARCHION a DYMUNIADAU GORAU i bawb sydd wedi cael cyfnodau anodd yn yr un cyfnod - bendith yr Arglwydd arnoch oll.

NEGES NESTA

Dyma ddechrau tymor yr Hydref a'r gweithgareddau yn ail-gydio wedi seibiant dros yr Haf. Eto fues i ddim yn segura achos roedd dipyn o bethau wedi digwydd yn y Fro rôl i'r Gadwyn fynd i'w baratoi ddiwedd Mehefin:

Bore Goffi Cymorth Cristnogol yn Eirianfa, Mehefin24ain

Cymanfa Cymdeithas Dydd yr Arglwydd yn dathlu 300 mlynedd Geni'r Pêr Caniedydd yng Nghapel y Fron ar 25ain. Diolch i bawb am gynorthwyo.

Iona Edwards

Anrhegwyd Blaenoriaid oedd wedi rhoi Gwasanaeth i'r Henaduriaeth yng Nghapel Clwyd St gan Dduwudd Cymdeithasfa'r Gogledd, y Parch Eric Jones

Hyfryd oedd cael Criw Coleg y Bala i arwain Gŵyl y Fro yn Neuadd Trefnant ar y 2ail o Orffennaf. Diolch i'r Pwyllgor Gweithjgareddau am y trefniadau Trylwyr.

Ar sesiynnau olaf *Agor y Llyfr* cyflwynwyd copiau o'r Cam Nesaf i ddisgyblion bl 6, a dechreuwn eto ganol Medi. Felly os hoffech helpu dwedwch wrthym.

Mae ymddiriedolwyr y Banc Bwyd yn gwerthfawrogi eich rhoddion cyson, a bum yn cynorthwyo Rhys Thomas yr ysgrifennydd yn Morrisons yn apelio am yr hyn yr ydym yn fyr ohonnynt – siwgwr, tuniau tomatos, cig, , pwdin sbwng, llysiau, Sudd a Diodydd Meddal, creision a fferins

Trist dealll y death mwy o glientiaid i mofyn bwyd dros wyliau'r haf gan bod y plant ar wyliau a newid yn y sustem budd-daliadau.

Oherwydd y crisis yn Sierra Leonne a'r ffoaduriaid , byddai rhoddion o ddillad, esgidiau,Cynfasau a blancedi,sachau cysgu, hen bebyll a.y.y.b yn dal yn ddefnyddiol dros ben. Ffoniwch fi os hoffech imi eu casglu gennych:07870323790

Bydd Gofal Dydd Waengoleugoed a Helpu'n Gilydd yn ail-gychwyn ddechrau Medi, os hoffech gael mwy o wybodaeth/ffurflen gais am le/wirfoddoli dewch mewn cysylltiad. Es i ymweld a rhai o'r selogion yn ystod y gwyliau a chymryd Cymun i'r Inffyrmari, Dolwen a Phlas Llanrhaeadr

Llongyfarfchiadau i aelodau'r ofalaeth ddaeth a Bri i'r Fro yn y Sioe Frenhinol, Eisteddfod Genedlaethol a Sioe Dinbych a Fflint. Rydym yn falch iawn ohonnoch ac yn dymuno'n dda i'r holl fyfyrwyr sydd yn symud ymlaen i Golegau a Phrentisiaeth yn yr Hydref. Cadwch mewn cysylltiad.

Bwriad gan Cytun y dref yw cynnal Gymanfa Ganu i lansio Apel y Fro i gynnal Eisteddfod yr Urdd 2019. Edrychwch am bosteri yn hysbysebu hyn a dewch i'n cefnogi. Hefyd prin yw'r amser hyd y bydd Apel Corwynt Cariad yn gorffen, felly meddyliwch am ffyrdd dda o godi arian.

Wela i chi'n fuan

Bendith

Rhifyn Medi o'r Cadwyn Bro, erbyn dydd Gwener Medi 15

e-bost: gwenfyljones@btinternet.com neu: 01745890417